**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 25 Gorffennaf 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am yr hynt o ran Gwerth Gorau. |

1 **Y CEFNDIR**

**Deddf Llywodraeth Leol 1999**

1.1 Cafodd dyletswydd Gwerth Gorau ei chyflwyno trwy Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Mae'r Ddeddf yn gwneud gofyniad ar Awdurdodau Gwerth Gorau i wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac economi eu gwaith.

1.2 Mae Deddf 1999 hefyd yn darparu pwerau dewisol i'r Ysgrifennydd Gwladol/y Cynulliad Cenedlaethol i roi cyfarwyddyd statudol a/neu orchmynion i Awdurdodau Gwerth Gorau ynghylch y ddyletswydd gyffredinol (Adran 3), Adolygiadau Gwerth Gorau (Adran 5), Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau (Adran 6) a chytundebau a hepgor ystyriaethau anfasnachol (Adran 19).

1.3 Cyn nodi pa ddangosyddion perfformiad neu safonau dan Adran 4, mae gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol a/neu'r Cynulliad Cenedlaethol ymgynghori yn eu cylch – o leiaf – gyda chynrychiolwyr yr awdurdodau gwerth gorau dan sylw.

1.4 Wrth nodi pa ddangosyddion perfformiad neu safonau dan Adran 4, mae gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol/y Cynulliad Cenedlaethol geisio hybu gwell economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yng ngwaith yr awdurdod, ac ystyried unrhyw argymhellion a wneir gan y Comisiwn Archwilio.

1.5 Yn ystod y misoedd cyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru i'r Cynulliad, roedd y pwerau dewisol hyn yn cael eu defnyddio gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran yr awdurdodau tân ac achub yn Lloegr, ond nid o ran yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

1. **CEFNDIR** *(parhad)*

**Fframweithiau Perfformiad ac Asesu**

1.6 Tra bo'r awdurdodau tân ac achub yn Lloegr yn agored i'r gyfundrefn Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr (CPA), bydd yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru yn cymryd rhan mewn rhaglen wella yn seiliedig ar y Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Ar gais y Cynulliad, mae'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru (Swyddfa Archwilio Cymru bellach) wedi bod, dros y misoedd diwethaf, yn datblygu fframwaith asesu'r Rhaglen Wella – Tân ac Achub.

**Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004**

1.7 Yn Nhachwedd 2004, cafodd y cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru ei ddatganoli yn ffurfiol i'r Cynulliad pan ddechreuwyd y Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yng Nghymru, ychydig wythnosau wedi ei dechrau yn Lloegr.

**Y Fframweithiau Cenedlaethol**

1.8 Ymhlith pethau eraill, cyflwynodd Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ofyniad ar y Cynulliad i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Tân ac Achub (Adran 21).

1.9 Rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol osod blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub, a gall gynnwys cyfarwyddyd ac unrhyw fater arall ynghylch cyflawni gwaith yr awdurdod tân ac achub.

1.10 Wrth gyflawni unrhyw un o'r swyddogaethau a restrir ym mharagraff 1.9, mae gofyn i'r Cynulliad wneud hynny mewn ffordd sydd wedi ei gynllunio i hybu diogelwch y cyhoedd; economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr awdurdodau tân ac achub; ac economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y materion hynny sy'n ymwneud â chyflawni gwaith yr awdurdodau tân ac achub.

2 **CYFLWYNIAD**

2.1 Yn Rhagfyr 2004, defnyddiodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei bwerau dewisol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i roi cyfarwyddyd statudol ynghylch Gwerth Gorau i awdurdodau tân ac achub yn Lloegr (Cylchlythyr 09/2004). Yn fuan wedi hynny, ac wedi ymgynghori, cafwyd offeryn statudol (2005/598) yn rhestru'r dangosyddion y byddai perfformiad yr awdurdodau tân ac achub yn Lloegr yn cael eu mesur yn eu herbyn yn ystod 2005/06.

2.2 Nid yw'r un pwerau dewisol hyn wedi cael eu defnyddio eto gan y Cynulliad o ran yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn Ebrill 2005 yn cadarnhau bwriad y Cynulliad i gyflawni'r gwaith canlynol sy'n ymwneud â Gwerth Gorau cyn Rhagfyr 2005 (dangosir rhifau'r paragraffau mewn cromfachau):

2.3

a) Ymgynghori ar ddangosyddion perfformiad Gwerth Gorau drafft ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub (9.10)

2. **CYFLWYNIAD** *(parhad)*

b) Ymgynghori ar gyfarwyddyd Cynllunio Integredig Rheoli Risg ar gyfer 2006-07 (2.17)

c) Ymgynghori ar gyfarwyddyd drafft Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (9.4)

ch) Cyhoeddi cyfarwyddyd manwl ar y Safonau Cyflwyno Gwasanaeth yn annibynnol o'r Rhaglen (4.3) [Dan Adran 4 o Deddf Llywodraeth Leol 1999, byddai hyn yn gofyn am ymgynghori o flaen llaw gyda'r Awdurdodau Gwerth Gorau dan sylw, ac yna rhoi ystyriaeth i argymhellion y Comisiwn Archwilio.]

d) Trwy weithio gyda Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM), gwella ansawdd y data damweiniau ac anafiadau a'r trefniadau ar gyfer eu casglu (4.7)

dd) Ymgynghori ar y cynigion, a chyhoeddi gorchymyn yn ymwneud â chodi tâl am wasanaethau arbennig (8.15)

e) Adolygu'r archebion masnachu a wnaed dan adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 wedi dyfodiad Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub (8.16)

f) Ymgynghori ar gynigion o ran ehangu'r dyletswyddau i ddelio ag argyfyngau eraill a gyflwynwyd yn Neddf y Gwasanaethau Tân ac Achub (5.4)

2.4 O ran y dangosyddion, roedd yr Uned Ddata Llywodraeth Leol, ar adeg cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol yn 'cynnull grŵp cyfeirio o randdeiliaid allweddol sy'n cynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub….i ddatblygu'r DPion diwygiedig, adolygu DPion statudol cenedlaethol ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub a gofynion data eraill, a rhoi ystyriaeth i drefniadau ar gyfer casglu, gwirio, dadansoddi a dosbarthu data perfformiad' (9.11).

3 **Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD**

3.1 Cytunwyd y byddai'r dangosyddion a nodwyd ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr yn cael eu defnyddio ar sail wirfoddol gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru ar gyfer 2005-06, gan aros trefniadau eraill o Ebrill 2006 ymlaen.

3.2 Rhagwelir y bydd y Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella – Tân ac Achub yn dechrau ar Ebrill 1af 2006.

4 **ARGYHMELLIAD**

4.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.